# Dogfen ir Cyhoedd

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

Dr Gwynne Jones
Prif Weithredwr – Chief Executive

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | | NOTICE OF MEETING |
|---|---|---|
| PWYLLGOR GWAITH | | THE EXECUTIVE |
| DYDD LLUN,<br>24 EBRILL 2017<br>10.00 o'r gloch y.b. | | MONDAY,<br>24 APRIL, 2017<br>10.00 a.m. |
| SIAMBR Y CYNGOR,<br>SWYDDFEYDD Y CYNGOR, LLANGEFNI | | COUNCIL CHAMBER,<br>COUNCIL OFFICES,LLANGEFNI |
| SWYDDOG PWYLLGOR | Ann Holmes<br>01248 752518 | COMMITTEE OFFICER |

**Annibynnol / Independent**
R Dew, K P Hughes, H E Jones a Ieuan Williams (Cadeirydd/Chair)

**Plaid Lafur/Labour Party**
J A Roberts (Is-Gadeirydd/Vice-Chair) a Alwyn Rowlands

**Aelod Democratiaid Rhyddfrydol Cymru /Welsh Liberal Democrat (Heb Ymuno / Unaffiliated)**

Aled Morris Jones

COPI ER GWYBODAETH / COPY FOR INFORMATION

I Aelodau'r Cyngor Sir / To the Members of the County Council

Bydd aelod sydd ddim ar y Pwyllgor Gwaith yn cael gwahoddiad i'r cyfarfod i siarad (ond nid i bleidleisio) os ydy o/hi wedi gofyn am gael rhoddi eitem ar y rhaglen dan Reolau Gweithdrefn y Pwyllgor Gwaith. Efallai bydd y Pwyllgor Gwaith yn ystyried ceisiadau gan aelodau sydd ddim ar y Pwyllgor Gwaith i siarad ar faterion eraill.

A non-Executive member will be invited to the meeting and may speak (but not vote) during the meeting, if he/she has requested the item to be placed on the agenda under the Executive Procedure Rules. Requests by non-Executive members to speak on other matters may be considered at the discretion of The Executive.

**Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffilmio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu wedyn ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y gweddarllediad hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cyhoeddedig yr Awdurdod**

## R H A G L E N

**1 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn datganiad o ddiddordeb gan Aelod neu Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem o fusnes.

**2 MATERION BRYS ARDYSTIWYD GAN Y PRIF WEITHREDWR NEU EI SWYDDOG APWYNTIEDIG**

Dim materion brys ar adeg anfon y rhaglen hon.

**3 COFNODION** (Tudalennau 1 - 12)

Cyflwyno i'w cadarnhau, gofnodion drafft y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 20 Mawrth 2017.

**4 COFNODION - PANEL RHIANT CORFFORAETHOL** (Tudalennau 13 - 20)

Cyflwyno i'w mabwysiadu, gofnodion drafft y Panel Rhiant Corfforaethol a gynhaliwyd ar 6 Mawrth, 2017.

**5 BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH** (Tudalennau 21 - 34)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd.

**6 ASESIAD DIGONOLRWYDD GOFAL PLANT** (Tudalennau 35 - 44)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Dysgu.

**7 GWNEUD NEWIDIADAU I'R CYFANSODDIAD I ADLEWYRCHU GOFYNION MEWN PERTHYNAS Â'R PWYLLGOR CYNLLUNIO YN SGIL RHEOLIADAU DIWEDDAR** (Tudalennau 45 - 48)

Cyflwyno adroddiad ar y cyd gan y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd a'r Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro.

# Y PWYLLGOR GWAITH

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Mawrth 2017

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Y Cynghorydd Ieuan Williams (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd J Arwel Roberts (Is-Gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr R Dew, K P Hughes, A M Jones, H E Jones ac Alwyn Rowlands. |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr Cynorthwyol (Partneriaethau, y Gymuned a Gwella Gwasanaethau),<br>Prif Weithredwr Cynorthwyol (Llywodraethiant a Thrawsnewid Prosesau Busnes),<br>Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151,<br>Pennaeth Dysgu,<br>Pennaeth Gwasanaethau Tai,<br>Pennaeth Gwasanaethau Oedolion,<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd,<br>Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd,<br>Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo,<br>Rheolwr Busnes (Tai) (NM),<br>Rheolwr Gwasanaeth - Cynllunio, Comisiynu a Pholisi (EL) (ar gyfer eitem 12 yn unig),<br>Uwch Reolwr Safonau a Chynhwysiad (GMH),<br>Prif Swyddog Rheoli Gwastraff (ME) (ar gyfer eitem 14 yn unig),<br>Rheolwr Uned Bartneriaeth Môn a Gwynedd (LJ) (ar gyfer eitem 9 yn unig),<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorwyr Jeffrey M. Evans, John Griffith, T. Victor Hughes, Llinos M. Huws, R. Meirion Jones, Peter S. Rogers. |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Dim |

### 1 DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Cafwyd datganiadau o ddiddordeb fel a ganlyn: -

Datganodd y Cynghorydd H E Jones ddiddordeb personol mewn perthynas ag eitem 16 ar y rhaglen.

Datganodd y Cynghorydd Alwyn Rowlands ddiddordeb a oedd yn rhagfarnu mewn perthynas ag eitem 18 ar y rhaglen.

**2 MATERION BRYS A ARDYSTIWYD GAN Y PRIF WEITHREDWR NEU SWYDDOG A BENODWYD GANDDO**

Dim i'w adrodd.

**3 COFNODION**

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod blaenorol o'r Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 14 Chwefror, 2017 i'w cadarnhau.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 14 Chwefror 2017 fel cofnod cywir**

**4 COFNODION ER GWYBODAETH**

Cyflwynwyd cofnodion drafft cyfarfod Pwyllgor Cyswllt y Sector Gwirfoddol a gynhaliwyd ar 12 Ionawr, 2017 er gwybodaeth.

**PENDERFYNWYD nodi er gwybodaeth, gofnodion drafft cyfarfod Pwyllgor Cyswllt y Sector Gwirfoddol a gynhaliwyd ar 12 Ionawr, 2017.**

**5 BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH**

Cyflwynwyd, i'w ystyried gan y Pwyllgor, adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd a oedd yn ymgorffori Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith am y cyfnod o fis Ebrill i fis Tachwedd 2017.

Amlygodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd y newidiadau i'r Flaenraglen Waith fel a ganlyn: -

**Eitemau sy'n newydd i'r Flaenraglen Waith**

Eitem 8 - Moderneiddio Ysgolion - Rhaglen Amlinellol Strategol - Band B (2019-2024) – eitem i'w hystyried gan y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 12 Mehefin, 2017;

Eitem 9 - Asesiadau Diogelwch ar gyfer Llwybrau Cerdded i'r Ysgol – eitem i'w hystyried gan y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 12 Mehefin, 2017;

Eitem 11 - Moderneiddio Ysgolion - Ardal Llangefni - Ymgynghoriad Statudol – eitem i'w hystyried gan y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 17 Gorffennaf, 2017;

Eitem 19 - Moderneiddio Ysgolion - Ardal Llangefni - Achos Busnes Amlinellol – eitem i'w hystyried gan y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 30 Hydref, 2017;

Eitem 20 - Cyllideb 2018/19 – eitem i'w hystyried gan y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 6 Tachwedd, 2017;

Eitem 22 - Cerdyn Sgorio Corfforaethol - Chwarter 2, 2017/18 – eitem i’w hystyried gan y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 27 Tachwedd, 2017;

Eitem 24 - Trawsnewid y Gwasanaeth Llyfrgell – eitem i’w hystyried gan y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 27 Tachwedd, 2017;

Eitem 25 - Trawsnewid y Gwasanaeth Diwylliant – eitem i'w hystyried gan y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 27 Tachwedd, 2017.

**Eitemau a ailraglennwyd i'w hystyried**

Eitem 2 - Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant – eitem i’w hystyried gan y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 24 Ebrill, 2017.

**PENDERFYNWYD cadarnhau Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith ar gyfer y cyfnod Ebrill – Hydref 2017 yn amodol ar y newidiadau ychwanegol a amlinellwyd yn y cyfarfod.**

## 6 CERDYN SGORIO CORFFORAETHOL - CHWARTER 3, 2016/17

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Trawsnewid Corfforaethol mewn perthynas â Chwarter 3 blwyddyn ariannol 2016/17.

Dywedodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Busnes y Pwyllgor Gwaith, Trawsnewid Perfformiad, y Cynllun Corfforaethol ac Adnoddau Dynol fod y Cerdyn Sgorio Corfforaethol yn dangos bod y dangosyddion perfformiad ar gyfer lefelau salwch y Cyngor wedi dangos gwelliant yn Chwarter 3. Os bydd y perfformiad cryf yn Chwarter 3 yn cael ei gynnal i mewn i Chwarter 4, yna mae'n debygol y bydd modd cwrdd â’r targed o 10 diwrnod ar gyfer pob swyddog amser llawn cyfatebol. Fodd bynnag, awgrymodd y dylai'r Cyngor ystyried enwi'r adrannau sy'n tanberfformio a chanddynt lefelau salwch uchel yn y Cerdyn Sgorio yn dilyn yr etholiadau llywodraeth leol ym mis Mai.

Adroddodd y Cynghorydd R. Meirion Jones, Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar y trafodaethau a gafwyd am y Cerdyn Sgorio Corfforaethol ar gyfer Chwarter 3 yn y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar 13 Mawrth, 2017. Nododd bod y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol wedi gofyn am eglurhad ynghylch rôl Sgriwtini a rôl y Byrddau Rheoli, fel y cyfeirir at hynny yn y Cerdyn Sgorio Corfforaethol yn 1.3.1 yr adroddiad, mewn perthynas â monitro perfformiad a sicrhau gwelliant parhaus.

Dywedodd y Cadeirydd mai rôl y Byrddau Rheoli / Rhaglen yw monitro prosiectau trawsnewid ac nad oes ganddynt rôl i fonitro perfformiad gwasanaethau’r Cyngor o ddydd i ddydd. Cytunodd gyda'r Aelod Portffolio ar gyfer Busnes y Pwyllgor Gwaith, Trawsnewid Perfformiad, y Cynllun

Corfforaethol ac Adnoddau Dynol y dylai unrhyw wasanaeth sy'n tanberfformio am ddau chwarter yn olynol gael sylw manwl yn y Pwyllgor Sgriwtini.

**PENDERFYNWYD nodi'r meysydd hynny y mae'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn eu rheoli i sicrhau gwelliannau i'r dyfodol fel y nodir yn adran 1.3 yr adroddiad ynghyd â'r mesurau lliniaru a amlinellwyd.**

## 7 POLISI TALIADAU TAI DEWISOL 2017/18

Cyflwynwyd i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith, adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 mewn perthynas â gweithrediad y Polisi Taliadau Tai Dewisol Lleol (TTD) a chynlluniau'r Adran ar gyfer Gwaith a Phensiynau yn ystod blwyddyn ariannol 2016/17 ac unrhyw newid ar gyfer y dyfodol.

**PENDERFYNWYD :-**

- **Cymeradwyo'r Polisi Lleol diwygiedig ar gyfer y cynllun Taliadau Tai Dewisol (TTD) o 4 Ebrill 2017 ar gyfer y flwyddyn 2017/18 a'r blynyddoedd dilynol;**
- **Sicrhau bod y cyfanswm a gaiff ei wario ar Daliadau Tai Dewisol yn y flwyddyn ariannol yn parhau i gyfateb yn fras i'r swm a ddyrannwyd ar gyfer y cynllun gan yr Adran Gwaith a Phensiynau (AGP).**

## 8 CYLLIDO AILSTRWYTHURO'R YSGOLION UWCHRADD

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 ar ariannu costau ailstrwythuro o fewn ysgolion uwchradd.

Dywedodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Cyllid bod nifer y disgyblion ym mhedair o'r pum Ysgol Uwchradd sydd gan y Cyngor wedi gostwng dros y blynyddoedd diwethaf. Mae un o'r Penaethiaid wedi llunio cynnig i ailstrwythuro rheolaeth yr ysgol a fyddai'n lleihau'r lwfansau a delir i athrawon a chanddynt gyfrifoldebau ychwanegol.  Nododd fod amodau gwasanaeth athrawon yn golygu bod angen diogelu eu tâl am gyfnod o dair blynedd.

**PENDERFYNWYD :-**

- **Cytuno mewn egwyddor i ddefnyddio cyllidebau canolog i ariannu unrhyw gostau diogelu cyflog sy'n deillio o ailstrwythuro rheolaeth Ysgolion Uwchradd y Cyngor;**
- **Bod trefniadau diogelu cyflog yn 2017/18 yn cael eu hariannu o'r gyllideb wrth gefn ar gyfer Dileu Swyddi ond, os nad yw'r gyllideb honno'n ddigonol, dylid defnyddio balansau cyffredinol y Cyngor;**

- **Bod rhaid i bob ysgol sydd angen cymorth i gwrdd ag unrhyw gostau diogelu gyflwyno cynllun ffurfiol yn manylu ar y newidiadau arfaethedig, y costau diogelu cyflog a'r arbedion refeniw a gyflawnir. Rhaid i'r cynllun fod yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y cynnig ailstrwythuro a ddrafftiwyd eisoes a rhaid ei gytuno gyda'r Pennaeth Dysgu a'r Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151;**
- **Bod rhyddhau cyllid ar gyfer ysgolion unigol yn cael ei ddirprwyo i'r Aelod Portffolio (Cyllid) a'r Aelod Portffolio (Addysg) yn amodol ar gyflwyno achos busnes boddhaol gan yr Ysgol dan sylw;**
- **Bod y Cyngor yn cadw'r hawl i adennill cyfran o'r cyllid a ddyrennir tuag at gostau diogelu cyflog, os bydd ysgol sydd wedi derbyn cyllid trwy'r penderfyniad hwn yn penderfynu ailstrwythuro eto yn y dyfodol e.e. o ganlyniad i gynnydd yn nifer y disgyblion.**

## 9 ASESIAD LLESIANT - BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS

Cyflwynwyd adroddiad y Prif Weithredwr yn gofyn i'r Pwyllgor Gwaith gymeradwyo'r fersiwn ddrafft o'r Asesiad Llesiant Lleol ar gyfer Ynys Môn.

Dywedodd Rheolwr Uned Partneriaeth Ynys Môn a Gwynedd y sefydlwyd Bwrdd ar y cyd rhwng Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Gwynedd a'i fod yn arwain ar y gwaith o baratoi'r asesiad ar draws y ddwy sir. Mae'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 newydd wedi sefydlu Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer pob ardal awdurdod lleol i sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn gweithio gyda'i gilydd i greu dyfodol gwell i bobl Cymru. Cynhaliwyd nifer o sesiynau galw i mewn ar gyfer y cyhoedd ac 'roedd yna holiadur ar-lein fel y gallai trigolion fynegi barn am eu cymunedau.

Nod yr ymchwil a'r sesiynau galw i mewn oedd galluogi'r Bwrdd i lunio asesiad a fyddai, yn y pen draw, yn arwain at gynllun a fyddai'n canolbwyntio ar wella Llesiant Gwynedd a Môn. Mae hwn yn ddrafft o'r asesiadau i greu cynllun Llesiant. Mae'n bwysig bod yr asesiadau yn adlewyrchiad teg o'n cymunedau, a'i fod yn edrych ar yr heriau a'r cyfleoedd sydd o'n blaenau.

**PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr Asesiad o Lesiant Lleol ar gyfer ardal Awdurdod Lleol Ynys Môn.**

## 10 AROLYGIAD AGGCC O'R GWASANAETHAU PLANT YN YNYS MÔN

Cyflwynwyd adroddiad ar y cyd gan Bennaeth Dros Dro Gwasanaethau Plant (Gweithredol) a'r Pennaeth Dros Dro Gwasanaethau Plant (Strategol), mewn perthynas ag Adroddiad AGGCC ar Arolygiad o'r Gwasanaethau Plant a gynhaliwyd ym mis Tachwedd 2016.

Dywedodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol fod y gwasanaeth yn derbyn yr argymhellion yn adroddiad AGGCC ac y bydd yn gweithio'n agos gydag AGGCC am y 18 mis nesaf i wella a chryfhau'r

Gwasanaethau Plant yn Ynys Môn. Sefydlwyd Cynllun Gwella cyn yr arolygiad ym mis Tachwedd 2016 a neilltuwyd adnoddau o fewn y gwasanaeth ac fe ddarperir adnoddau pellach hefyd os bydd angen. Nododd bod yr Arolygydd Arweiniol ac  Arolygydd arall o AGGCC wedi annerch y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar 13 Mawrth 2017 a'r Panel Llesiant Plant ar 10 Mawrth, 2017.

Cyfeiriodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Llywodraethiant a Thrawsnewid Prosesau Busnes) a'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol at yr ohebiaeth a oedd ynghlwm wrth yr adroddiad gan Brif Arolygydd Cynorthwyol AGGCC sy'n nodi'r cyd-destun heriol y mae'r Gwasanaethau Plant wedi ei wynebu dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Fodd bynnag, nododd ei bod yn bwysig i'r gwasanaeth symud ymlaen.  Mae'r gwasanaeth wedi bod yn gweithio ar y Cynllun Gwella ers dros flwyddyn a gwnaed gwelliannau mawr fel yr adroddir yn Atodiad 2 yr adroddiad. Nododd ymhellach y cynhelir cyfarfod arall gydag AGGCC ar ddiwedd yr wythnos hon i drafod y Cynllun Gwella mewn peth manylder a dywedodd y bydd angen gwneud mân-newidiadau cyn iddo gael ei gyhoeddi'n ffurfiol maes o law.

Dywedodd y Cynghorydd R. Meirion Jones, Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol, y cafwyd trafodaeth fanwl yn y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar 13 Mawrth, 2017 pan anerchwyd y cyfarfod gan yr Arolygydd Arweiniol, Ms Bobbie Jones a Mr Marc Roberts, sef aelod o dîm arolygu AGGCC ynghylch canfyddiadau allweddol yr arolygiad a gynhaliwyd ym mis Tachwedd 2016. Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Pennaeth Dros Dro ar gyfer Gwasanaethau Plant adroddiad hefyd ar ganfyddiadau adroddiad AGGCC a sut y bydd y gwasanaeth yn mynd i'r afael â'r materion a godwyd.   Nododd bod y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn argymell bod y Pwyllgor Gwaith yn derbyn ymateb y Pennaeth Dros Dro ar gyfer Gwasanaethau Plant fel sail ar gyfer gwelliant sylweddol yn y Gwasanaethau Plant yn ystod y 12 i 18 mis nesaf sef; fel rhan o raglen wella fe sefydlir cynllun hyfforddi a datblygu o fis Mai, 2017 er mwyn cynorthwyo Aelodau i fonitro a chraffu ar y cynnydd a wnaed a'r pellter a deithiwyd; bod y cynllun hefyd yn cynnwys hyfforddiant ar fonitro perfformiad y Gwasanaethau Plant ac yn arbennig ansawdd y gwasanaethau a phrofiad unigolion sy'n derbyn cymorth a / neu wasanaethau h.y. llais y defnyddiwr; datblygu cylch gorchwyl a rôl y Panel Aelodau ymhellach i fonitro a chraffu ar y cynnydd a'r pellter a deithiwyd gyda'r cynllun gwella gwasanaeth; bod y ffrwd waith hon yn cynnwys meincnodi yn erbyn arfer da; bod monitro cynnydd yn y Gwasanaethau Plant yn eitem sefydlog ar raglen y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol; a bod y Pwyllgor Gwaith yn blaenoriaethu adnoddau digonol ar gyfer gweithredu'r cynllun gwella.

Dywedodd Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ymhellach ei bod yn bwysig bod y Gwasanaethau Plant yn symud ymlaen i baratoi cylch gorchwyl ac amcanion clir ar gyfer y Panel Plant newydd a fydd yn dod i rym o dan weinyddiaeth newydd y Cyngor ym mis Mai, 2017.  Bydd y Panel hwn yn

monitro’r pellter a deithiwyd a pherfformiad ac yn edrych yn benodol ar faterion ansawdd a llais y defnyddiwr.

Dywedodd y Cadeirydd ei fod ef, fel Arweinydd y Cyngor, yn derbyn yr argymhellion yn Adroddiad AGGCC ar yr Arolygiad o’r Gwasanaethau Plant. Roedd yn derbyn bod cadw a recriwtio staff cymwys wedi bod yn broblem yn y gwasanaeth, ond dywedodd fod awdurdodau lleol eraill hefyd yn wynebu sefyllfa debyg oherwydd natur y gwasanaeth a chymhlethdod y gwaith sy'n gysylltiedig â Gwasanaethau Plant. Cyfeiriodd at y Cynllun Gwella a gweledigaeth y gwasanaeth i ddenu staff a rhoi hyfforddiant digonol a chefnogi'r gwasanaeth. Dywedodd yr Arweinydd hefyd bod angen parhau i graffu ar y gwasanaeth hwn a bod angen sefydlu Is-Bwyllgor Sgriwtini ar gyfer y Gwasanaethau Plant am y 5 mlynedd nesaf a’r tu draw i hynny.  Dywedodd ymhellach y byddai sesiwn friffio yn cael ei threfnu i godi ymwybyddiaeth Aelodau o gylch gwaith y Gwasanaeth Ataliol a sut mae'n gweithio ochr yn ochr â'r Cynllun Perfformiad a roddwyd ar waith i fynd i'r afael â materion o fewn y gwasanaethau Plant.

Dywedodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Cyllid ei fod yn cytuno bod cadw a recriwtio staff cymwys a materion salwch wedi bod yn broblem yn y Gwasanaethau Plant, yn ogystal â’r cynnydd sylweddol yn nifer yr achosion. Nododd bod adnoddau wedi eu neilltuo ar gyfer y gwasanaeth yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac y darperir adnoddau pellach ar gyfer y gwasanaeth os bydd angen. Cytunodd y Pwyllgor Gwaith yr haf diwethaf i sefydlu cyllideb ar gyfer Tîm Trothwy Gofal a gobeithir y bydd creu’r Tîm hwn yn golygu y cyfeirir llai o achosion i’r Gwasanaethau Plant.

**PENDERFYNWYD :-**

- **Nodi canlyniadau'r Arolwg o’r Gwasanaethau Plant a gynhaliwyd ym mis Tachwedd 2016;**

- **Nodi a chadarnhau bod yr Aelodau'n derbyn yr Argymhellion;**

- **Nodi bod yr Argymhellion a’r camau i ymdrin â hwy wedi cael eu hymgorffori yn y Cynllun Gwella ar gyfer y Gwasanaeth.**

## 11 CYNLLUN BUSNES Y CYFRIF REFENIW TAI 2017-2047

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Tai i'r Pwyllgor Gwaith mewn perthynas â'r uchod.

Dywedodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol mai’r Cynllun Busnes yw’r prif gyfrwng ar gyfer gwaith cynllunio ariannol mewn perthynas â chyflawni a rheoli stoc dai'r Cyngor. Mae’r Cyngor, trwy ei Gyfrif Refeniw Tai (CRT) yn rheoli ac yn berchen ar bron i 3,800 o dai ac ychydig dros 700 o garejis ar draws yr Ynys.  Nododd fod dros £3m wedi ei gynnwys yn y

gyllideb refeniw ar gyfer gwaith atgyweirio a chynnal a chadw ar y stoc dai a bod cyllideb hefyd o £4.125m yn 2017/2018 ar gyfer rhaglen ddatblygu i brynu tai a chodi tai cyngor newydd ar yr Ynys. Mae'r Cynllun Busnes yn rhagdybio rhaglen ddatblygu tai cymdeithasol o 30 o unedau yn 2017/18 ac wedi hynny tan 2030.

**PENDERFYNWYD**

- **Cymeradwyo'r Cynllun Busnes 2017-2047 ar gyfer y Cyfrif Refeniw Tai (CRT), ac yn arbennig gyllideb y CRT ar gyfer 2017-2047 fel y nodir yn y Cynllun, i'w cyflwyno i Lywodraeth Cymru;**
- **Cymeradwyo'r Rhaglen Gyfalaf arfaethedig ar gyfer Tai ar gyfer 2017-2018, fel y nodir yn Atodiad 3 yr adroddiad;**
- **Rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Pennaeth Gwasanaeth Tai a'r Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 i wneud unrhyw newidiadau i'r Cynllun busnes cyn ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru.**

## 12 STRATEGAETH DDIGARTREFEDD DROS DRO

Cyflwynwyd i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith, adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Tai mewn perthynas â'r Strategaeth Ddigartrefedd Dros Dro a chynllun gwaith ar gyfer 2017/2018.

Dywedodd Yr Aelod Portffolio ar gyfer Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol ei bod yn ofynnol i awdurdodau lleol lunio Strategaeth Ddigartrefedd er mwyn atal digartrefedd ac i ddarparu cefnogaeth addas i bobl sy'n ddigartref neu sydd mewn perygl o fod yn ddigartref. Mae awdurdodau lleol Gogledd Cymru wedi mynegi bwriad i greu Strategaeth Ranbarthol gyda phob Awdurdod Lleol yn creu Cynllun Gwaith Lleol am gyfnod o 5 mlynedd.

Holodd y Pwyllgor Gwaith a fyddai'r Strategaeth Ranbarthol 5 mlynedd yn mynd i'r afael â'r mewnlifiad mawr o bobl a fydd yn dod i'r Ynys ar gyfer adeiladu'r datblygiad Wylfa Newydd arfaethedig ac a fydd pobl leol yn gallu cystadlu a fforddio llety rhent preifat yn ystod cyfnod adeiladu Wylfa Newydd. Ymatebodd Pennaeth y Gwasanaethau Tai trwy ddweud y cynhaliwyd trafodaethau gyda datblygwyr Wylfa Newydd a rhoddodd sicrwydd y byddai gwaith yn cael ei wneud i liniaru unrhyw effaith y byddai datblygiadau mawr o'r fath ei chael ar lety rhent yn Ynys Môn. Dywedodd hefyd fod gan yr Awdurdod Gynllun Busnes i adeiladu tai cymdeithasol hyd 2030 ac mae'r Cyngor yn gweithio'n agos gyda'r 3 Cymdeithas Dai i gynyddu'r stoc dai ar yr Ynys.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r Strategaeth Interim ar Ddigartrefedd a'r Cynllun Gwaith am y cyfnod 2017/2018, ac yn dilyn y cyfnod hwn bwriedir cyflwyno Strategaeth Ranbarthol a Chynllun Gwaith Lleol ar gyfer cyfnod o 5 mlynedd.**

## 13 POLISI CYNLLUNIO AR Y CYD YNYS MÔN A GWYNEDD

Cyflwynwyd i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith, adroddiad y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd mewn perthynas â'r cynnig i barhau â'r trefniant cydweithredol ar gyfer darparu Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar y Cyd ar gyfer y Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Gwynedd am 5 mlynedd arall.

Dywedodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Datblygu Economaidd fod Cynghorau Gwynedd ac Ynys Môn wedi cytuno ym mis Mehefin 2010 i ffurfio Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar y Cyd. Paratoi a chyflawni yw prif allbwn gwaith yr Uned Polisi Cynllunio gan fod gofyn i bob Awdurdod Cynllunio Lleol gynhyrchu Cynllun Datblygu Lleol. Yn y cyfarfod o'r Panel Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd a gynhaliwyd ar 24 Mehefin, 2016, cytunwyd ei bod yn amser da i adolygu trefniadau cyfredol y gwasanaeth Polisi Cynllunio ar y Cyd ar gyfer Cynghorau Môn a Gwynedd.

Dywedodd y Cadeirydd mai rhan o waith yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd yw paratoi Canllawiau Cynllunio Atodol ar wahanol bynciau. Nododd y byddai angen Canllawiau Cynllunio Atodol newydd mewn perthynas â Llety Twristiaeth fel mater o frys.

'Roedd y Pwyllgor Gwaith o'r farn bod angen cyflwyno adroddiadau monitro i'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion a'r Pwyllgor Gwaith bob chwarter, ynghyd â chyflwyno Adroddiad Blynyddol i'r Cyngor llawn ar waith y Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar y Cyd.

- **Cymeradwyo'r cynnig i barhau'r trefniant o ddarparu'r Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar y Cyd ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Gwynedd am 5 mlynedd bellach;**
- **Rhoi'r awdurdod i Uwch Swyddog o'r Adran Rheoleiddio a'r Adran Gyfreithiol, i adolygu a chytuno ar gytundeb cydweithio newydd i ymestyn y cyfnod cydweithio i gynnwys adolygu a chytuno ar drefniadau gweinyddu, gweithredu a rheoli'r Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd;**
- **Y bydd adroddiadau cynnydd chwarterol yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith a'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion er gwybodaeth, ac Adroddiad Blynyddol i'r Cyngor Llawn.**

## 14 ARBRAWF GORFODAETH AMGYLCHEDDOL

Cyflwynwyd i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith, adroddiad ar y cyd gan y Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo a'r Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd mewn perthynas â sefydlu Arbrawf Gorfodaeth Amgylcheddol.

Dywedodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Priffyrdd, Eiddo a Rheoli Gwastraff fod y Cyngor yn ystyried bod yn rhan o arbrawf am 12 mis gyda chwmni i gyflwyno

hysbysiadau cosb sefydlog am droseddau amgylcheddol gan gynnwys gollwng sbwriel, baw cŵn a thipio anghyfreithlon.

Dywedodd y Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo fod cwmni gorfodaeth gwastraff preifat o'r enw Kingdom yn cyflwyno hysbysiadau cosb sefydlog am daflu sbwriel a materion baw cŵn ar gyfer nifer o awdurdodau lleol. Nododd os bydd yr arbrawf o roi hysbysiadau cosb sefydlog am daflu sbwriel, tipio anghyfreithlon a baw cŵn yn llwyddiannus, yna dylid ystyried ymestyn y contract i roi Hysbysiadau Cosb am Barcio Ar y Stryd ac Oddi ar y Stryd.

Wedi iddo ofyn i gael annerch y Pwyllgor, dywedodd y Cynghorydd Peter Rogers fod problemau parcio enbyd yn ardal Niwbwrch a bod angen cynnwys Hysbysiadau Cosb am Barcio Ar y Stryd ac Oddi ar y Stryd yn y contract gyda'r cwmni gorfodaeth preifat Kingdom fel mater o frys.

- **Awdurdodi'r Cyngor i wneud cytundeb gyda Kingdom i gynnal arbrawf 12 mis i roi hysbysiadau cosb sefydlog am droseddau amgylcheddol yn cynnwys taflu sbwriel, baeddu gan gŵn a thipio anghyfreithlon, ar sail Opsiwn 3 a nodir yn yr adroddiad hwn, gydag opsiwn i ymestyn y cytundeb am 12 mis pellach, yn ddibynnol ar gytundeb y ddau barti;**
- **Awdurdodi'r Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo a'r Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd i benodi staff gorfodi dynodedig Kingdom yn Swyddogion Awdurdodedig i'r Cyngor er mwyn eu galluogi i wneud gwaith gorfodi, yn cynnwys rhoi hysbysiadau cosb sefydlog perthnasol.**
- **Awdurdodi'r Pennaeth Gwasanaeth perthnasol i ddefnyddio unrhyw incwm a gynhyrchir o roi hysbysiadau cosb sefydlog er mwyn cwrdd ag amcanion amgylcheddol eu gwasanaeth;**
- **Ar ôl tri mis cychwynnol yr arbrawf, os bydd y gwasanaeth o'r farn bod y cynllun peilot yn mynd yn ei flaen yn dda, gellir ymestyn yr arbrawf i gynnwys rhoi Hysbysiadau Cosb am Barcio Ar y Stryd ac Oddi ar y Stryd yn amodol ar gyngor cyfreithiol ynglŷn â goblygiadau TUPE.**

## 15 Y GYMRAEG MEWN ADDYSG - CYNLLUN STRATEGOL 2017-2020

Cyflwynwyd i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith, adroddiad y Pennaeth Dysgu mewn perthynas â'r ffaith y disgwylir i bob awdurdod lleol gyflwyno Cynllun Strategol Y Gymraeg mewn Addysg i Lywodraeth Cymru.

Dywedodd y Pennaeth Dysgu fod y Cynllun Strategol hwn wedi bod yn destun ymgynghoriad dros y misoedd diwethaf gyda Fforwm Iaith y Cyngor, ysgolion a rhanddeiliaid eraill ac y rhoddwyd cyfle i'r cyhoedd a sefydliadau perthnasol ymateb iddo. Diwygiwyd y Cynllun Strategol yn sgil yr ymgynghoriad a chytunwyd i ychwanegu'r Cynllun Gweithredu ar gyfer cyflawni amcanion Cynllun Strategol Y Gymraeg mewn Addysg. Dywedodd fod Mr Alun Davies A.C., sef y Gweinidog sydd â chyfrifoldeb ar gyfer Dysgu Gydol Oes a'r Iaith Gymraeg, wedi

dweud yn yr wythnos ddiwethaf y bydd yn cynnal adolygiad brys o'r Gymraeg mewn Addysg. Nododd ei bod o'r farn y rhagwelir y bydd angen adolygu’r mater hwn i gydymffurfio ag uchelgais Llywodraeth Cymru i anelu at gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Dywedodd y Cynghorydd R. Meirion Jones, sef yr Aelod Portffolio Cysgodol ar gyfer yr Iaith Gymraeg, mai'r unig ffordd y gall Llywodraeth Cymru gyflawni’r amcan o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 yw trwy gynnig cyfleon i blant yn y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal o fewn ysgolion.

**PENDERFYNWYD :-**

- **Cymeradwyo Cynllun Strategol Y Gymraeg Mewn Addysg 2017-2020;**
- **Cymeradwyo’r Cynllun Gweithredu ar gyfer gwireddu amcanion Cynllun Strategol Y Gymraeg mewn Addysg;**
- **Cymeradwyo’r Adolygiad o Bolisi Iaith Addysg Ynys Môn yn sgil y Cynllun Strategol Y Gymraeg mewn Addysg a pholisi iaith Cyngor Sir Ynys Môn.**

## 16 GOSTWNG YR OED DERBYN I YSGOL BRYNSIENCYN

Cyflwynwyd i’w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith, adroddiad y Pennaeth Dysgu mewn perthynas â gostwng yr oed derbyn i Ysgol Brynsiencyn.

**PENDERFYNWYD :-**
**Gostwng oed mynediad Ysgol Brynsiencyn i dderbyn disgyblion rhan amser o Fedi 2017.**

## 17 CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r canlynol: -**

**"Dan Adran 100 (A) (4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn ar y sail y gallai olygu datgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir yn Atodlen 12A y Ddeddf ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm. "**

## 18 TRAWSNEWID Y GWASANAETH DIWYLLIANT - ASEDAU TREFTADAETH

Cyflwynwyd i sylw’r Pwyllgor Gwaith, adroddiad y Pennaeth Dysgu mewn perthynas â’r cynnydd a wnaed hyd yma ar allanoli asedau treftadaeth y Cyngor.

**PENDERFYNWYD :-**

- **Derbyn yr adroddiad ar y cynnydd hyd yma mewn perthynas ag allanoli asedau diwylliannol.**

- **Caniatáu i swyddogion barhau i gynnal trafodaethau ynglŷn ag allanoli asedau diwylliannol gyda phartïon sydd â diddordeb, gyda'r bwriad y bydd y Pwyllgor Gwaith yn gallu gwneud penderfyniad terfynol ym mis Tachwedd 2017.**
- **Cymeradwyo Cynllun Busnes Oriel Ynys Môn a bod adroddiad monitro ar berfformiad yr Oriel yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith bob chwe mis.**

Daeth y cyfarfod i ben am 11.35 am

**Y CYNGHORYDD IEUAN WILLIAMS**
**CADEIRYDD**

# PANEL RHIANTU CORFFORAETHOL

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Mawrth 2017

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Dr Caroline Turner (Prif Weithredwr Cynorthwyol a Chyfarwyddwr Statudol Dynodedig y Gwasanaethau Cymdeithasol) (Yn y Gadair)<br><br>Y Cynghorydd K P Hughes (Aelod Portffolio Addysg),<br>Y Cynghorydd Dylan Rees (Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio),<br>Mr Douglas Watson (Cadeirydd Cymdeithas Gofalwyr Maeth Ynys Môn),<br>Mr Llyr Bryn Roberts (Pennaeth Dros Dro y Gwasanaethau Plant),<br>Alex Kaitell (Prif Swyddog Gweithredu Dros Dro),<br>Dawn Owen (Rheolwr Tîm Lleoli Plant),<br>Mr. Huw Owen (Rheolwr Tîm PDG),<br>Heulwen Owen (Swyddog Cyswllt Addysg PDG),<br>Llinos Edwards (Nyrs PDG - BIPBC),<br>Enid Christie (Uwch Reolwr – Adran Addysg),<br>Liz Fletcher (Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr),<br>Mairwen Hughes (Swyddog Pwyllgor). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Dr Gwynne Jones (Prif Weithredwr) (Cadeirydd y Panel Rhiantu Corfforaethol),<br>Y Cynghorydd Aled Morris Jones (Aelod Portffolio Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol),<br>Y Cynghorydd Ann Griffith (Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol),<br>Dr Einir Thomas (Swyddog Addysg - ADY). |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Ieuan Williams (Arweinydd y Cyngor) |

---

**1 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o ddiddordeb.

**2 COFNODION CYFARFOD 5 RHAGFYR 2016**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod diwethaf y Panel Rhiantu Corfforaethol a gynhaliwyd ar 5 Rhagfyr 2016 a chadarnhawyd eu bod yn gywir.

**3 MATERION YN CODI**

- **Plant ar Goll o Ofal**

  Cyflwynwyd – adroddiad gan y Prif Swyddog Gweithredu Dros Dro yn amlinellu manylion plant sy'n derbyn gofal yn Ynys Môn sydd wedi bod ar goll o ofal.

  Adroddodd y Prif Swyddog Gweithredu Dros Dro mai'r cyfrifoldeb rhiantu corfforaethol allweddol yw sicrhau bod plant sy'n derbyn gofal gan yr Awdurdod Lleol yn cael eu diogelu'n ddigonol a bod eu lles yn cael ei hyrwyddo. Mae'r Protocol Cymru Gyfan ar gyfer Plant sydd ar Goll yn darparu ymateb amlasiantaethol clir ar gyfer plant sydd ar goll o ofal (roedd copi o'r protocol ynghlwm i'r adroddiad). Dywedodd bod cyfrifoldeb statudol ar y Gwasanaethau Plant, yr Heddlu ac asiantaethau eraill i ddiogelu plant gan gynnwys plant sydd ar goll o ofal. Yn ôl y data a dderbyniwyd gan Heddlu Gogledd Cymru rhwng Chwefror 2016 a Chwefror 2017, aeth 7 plentyn/person ifanc yn derbyn gofal, a oedd yn byw yn Ynys Môn, ar goll ond dim ond 3 oedd yn derbyn gofal gan Wasanaethau Plant Ynys Môn. Comisiynwyd Barnardo's, fel sefydliad gwirfoddol annibynnol, i gwblhau'r holl gyfweliadau dychwelyd adref ar draws Gogledd Cymru gan gynnwys ar gyfer Plant/Pobl Ifanc Ynys Môn. Fodd bynnag, oherwydd bod y cyllid yn dod i ben ddiwedd Mawrth 2017 bydd rhaid i'r gweithwyr cymdeithasol plant fod yn gyfrifol am gynnal

y cyfweliadau/ymweliadau ac efallai y bydd goblygiadau i hynny gan fod plant/pobl ifanc yn fwy parod i siarad a rhannu gwybodaeth gyda pherson annibynnol yn hytrach na gweithiwr cymdeithasol. Yn ychwanegol, dywedodd bod angen adolygu'r system gofnodi electronig fel ei fod yn cofnodi manylion plant/pobl ifanc sydd ar goll. Nododd y dylid briffio Cyfarwyddwr Strategol Dynodedig y Gwasanaethau Cymdeithasol yn rheolaidd am blant sydd ar goll o ofal.

Awgrymodd y Swyddog y gallai'r Panel Rhiantu Corfforaethol, ymhen 12 mis, edrych ymhellach ar yr ymateb a'r adnoddau y mae'r Adran Gwasanaethau Cymdeithasol eu hangen mewn perthynas â'r materion a godwyd yn yr adroddiad.

**Cytunwyd i nodi'r adroddiad.**

**GWEITHREDU : Cyflwyno adroddiad diweddaru ymhen 12 mis.**

- **Grŵp Sirol ar gyfer Tracio Cynnydd Plant mewn Gofal**

Dywedodd y Swyddog Addysg PDG y cynhaliwyd y Panel Tracio cyntaf ar 9 Chwefror 2017 a thrafodwyd nifer fechan o ddisgyblion sydd ag anghenion addysgol dwys. Cytunwyd bod angen trafod anghenion pob plentyn/person ifanc mewn gofal yn unigol. Dywedodd mai'r bwriad yw dechrau gyda'r plant mewn ysgolion uwchradd a gwahodd cynrychiolydd o bob un o'r 5 Ysgol Uwchradd ar yr Ynys i fod yn bresennol. Bydd trafodaethau yn canolbwyntio ar anghenion addysgol y plentyn/person ifanc gan ystyried a oes angen trefnu adnoddau ychwanegol er mwyn cefnogi'r plant hyn. Dywedodd y Swyddog Addysg PDG ei bod wedi ymgorffori'r mater hwn yn ei hadroddiad o dan eitem 6 ar y rhaglen.

**PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth.**

**GWEITHREDU : Adroddiad diweddaru i'w gyflwyno i'r Panel Rhiantu Corfforaethol maes o law.**

- **Trefniadau Gadael Gofal**

Dywedodd Pennaeth Dros Dro y Gwasanaethau Plant mai un elfen o'r Cynllun Gwella Gwasanaeth yw datblygu gwasanaethau ar gyfer plant sy'n gadael gofal. Datblygwyd y prosiect hwn yn ystod y 12 mis diwethaf mewn ymateb i argymhellion Adroddiad Arolygiad AGGCC yn 2014 er mwyn rhoi sylw i faterion yn ymwneud â phobl sy'n gadael trefniadau gofal. Rhoes ddiweddariad i'r Panel ar gynnydd y cynllun ar gyfer pobl ifanc sydd angen/sy'n gymwys i dderbyn gwasanaeth ôl-ofal. Gofynnwyd i'r bobl ifanc hyn am adborth ar sut y gellir gwella trefniadau gadael gofal ond ni chafwyd fawr o ymateb i'r cynllun. Gwnaethpwyd gwaith gyda'r Gwasanaethau Tai i ddatblygu Protocol Ôl-Ofal ar y Cyd ar gyfer darparu cefnogaeth yn ymwneud â llety i bobl ifanc sy'n gadael gofal. Yn ychwanegol, dywedodd bod angen gwneud mwy o waith mewn perthynas â'r prosiect Llety wedi'i gefnogi.

Dywedodd y Swyddog y cynhaliwyd trafodaethau ag Adran Adnoddau Dynol Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr mewn perthynas â llwybrau profiad gwaith ar gyfer pobl ifanc mewn gofal ac sydd wedi gadael gofal. Mae'r Comisiynydd Plant wedi amlygu'r angen i ddarparu cyfleoedd profiad gwaith a phrentisiaethau ar gyfer pobl ifanc mewn gofal ac sy'n gadael gofal. Nodwyd y bydd y Comisiynydd Plant yn ymweld â'r Awdurdod ddiwedd mis Mawrth.

Holwyd faint o bobl ifanc sydd wedi ymuno â'r cynllun '*Pan Rwyf yn Barod*'. Dywedodd y Prif Swyddog Gweithredu Dros Dro bod 3 pherson ifanc wedi ymuno â'r cynllun '*Pan Rwyf yn Barod*' a disgwylir y bydd yr Awdurdod yn gallu cefnogi a rhoi arweiniad gan fod y grŵp mor fach. **Dywedodd bod angen cyflwyno adroddiad diweddaru ar y cynllun ynghyd â'r ddarpariaeth gadael gofal ar gyfer plant sy'n derbyn gofal i'r Panel Rhiantu Corfforaethol.** Dywedodd Pennaeth Dros Dro y Gwasanaethau Plant y byddai'n fanteisiol i'r Panel Rhiantu Corfforaethol dderbyn gwybodaeth am ganlyniadau arholiadau ac ymhle mae pobl ifanc mewn gofal wedi penderfynu parhau â'u haddysg.

Dywedodd y Nyrs PDG fod angen i Iechyd fod yn rhan o'r Cynllun Gwella Gwasanaeth ac y byddai'n trafod y mater gyda'r Prif Swyddog Gweithredu Dros Dro a Liz Fletcher o Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr maes o law.

**PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth.**

**GWEITHREDU : Cyflwyno adroddiad yng nghyfarfod nesaf y Panel fel y nodwyd uchod.**

- **Darpariaeth Iechyd Meddwl ar gyfer Plant y Gofelir Amdanynt**

Dywedodd y Nyrs PDG fod y Panel, yn ei gyfarfod diwethaf, wedi gofyn am flaenoriaethu adolygiad rhanbarthol o effeithiolrwydd y Llwybr Iechyd Meddwl Plant sy'n Derbyn Gofal, yn ogystal ag amseriad yr asesiad iechyd meddwl ar gyfer plant sy'n derbyn gofal pan fyddant yn dod i mewn i'r system ofal. Nododd, yn dilyn trafodaethau gyda Phrif Swyddog Gweithredu Dros Dro Cyngor Ynys Môn, y cytunwyd y dylid trafod y mater gyda'r awdurdod cyfagos, sef Cyngor Gwynedd. Hyd yma, ni chynhaliwyd cyfarfod gyda chynrychiolwyr y ddau awdurdod. Roedd yn ystyried y byddai modd trafod y mater drwy CAMHS er mwyn sicrhau bod plant sy'n derbyn gofal yn derbyn gwasanaeth iechyd meddwl digonol a dywedodd y byddai'n trafod y camau nesaf mewn perthynas â'r mater hwn gyda Liz Fletcher (Bwrdd Iechyd Prifysgolion Betsi Cadwaladr).

**Cytunwyd i drafod y mater yng nghyfarfod nesaf y Panel Rhiantu Corfforaethol yn dilyn trafodaethau â'r Bwrdd Iechyd.**

**GWEITHREDU : Fel y nodwyd uchod.**

## 4 GWASANAETH EIRIOLAETH TROS GYNNAL

**Cytunwyd i drafod yr eitem hon yng nghyfarfod nesaf y Panel Rhiantu Corfforaeth gan nad oedd cynrychiolwyr y Gwasanaeth Eiriolaeth Tros Gynnal yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod.**

Gofynnodd y Cadeirydd i'r adroddiad gynnwys gwybodaeth am nifer y defnyddwyr gwasanaeth sydd angen gwasanaeth yn y Gymraeg.

## 5 ADRODDIAD Y SWYDDOG ADOLYGU ANNIBYNNOL

Cyflwynwyd, er ystyriaeth gan y Panel, adroddiad y Swyddog Adolygu Annibynnol ar gyfer Chwarter 3 2016/17. Roedd yr adroddiad yn rhoi data meintiol mewn perthynas â nifer y plant oedd yn derbyn gofal; eu statws cyfreithiol; nifer a natur y lleoliadau a wnaed; ymweliadau statudol a gynhaliwyd; perfformiad y SAA yn erbyn dangosyddion perfformiad allweddol a llwyth achosion y SAA.

Gan nad oedd y Swyddog Adolygu Annibynnol yn bresennol adroddodd y Cadeirydd ar y prif ystyriaethau canlynol :-

- Ar ddiwedd chwarter 2 roedd cyfanswm o 135 o blant a phobl ifanc yn cael eu lletya gan CSYM ond erbyn chwarter 3 roedd y ffigwr hwn wedi codi i 136, sef cynnydd o un.
- Fel y dywedwyd eisoes yn yr adroddiadau chwarterol, bu cynnydd graddol yn nifer y plant a'r bobl ifanc sy'n 'derbyn gofal' ers Ch1; yn 2014/15 y ffigwr oedd 78. Mae hyn yn dangos y bu cynnydd sylweddol yn y niferoedd a letyir gan Gyngor Sir Ynys Môn ers chwarter cyntaf 2014 fel y darluniwr yn graff A (iii);
- O ran statws cyfreithiol, bu cynnydd bychan yn nifer y plant a phobl ifanc sy'n destun Gorchmynion Gofal Llawn i'r Awdurdod ac yn yr un modd mae gostyngiad bychan yn nifer y plant a'r bobl ifanc sy'n cael eu lletya gyda chaniatâd rhieni o dan Adran 75 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.
- Diogelu yw'r prif reswm dros letya gan Gyngor Sir Ynys Môn fel y darlunnir yn graff C;
- Mae graff D (i) yn dangos grwpiau oedran y plant a'r bobl ifanc sy'n derbyn gofal gan Gyngor Sir Ynys Môn ar hyn o bryd gyda 36 o blant yn y grŵp oedran 0 i 4 mlwydd oed sy'n gynnydd o'r 31 yn Ch1 a 35 yn Ch2; 42 o blant yn grŵp oedran 5 i 10 mlwydd oed, sy'n gynnydd o'r 37 yn Ch1 a Ch2; 41 o blant a phobl ifanc yn grŵp oedran 11 i 16 mlwydd oed sy'n gynnydd o'r 39

yn Ch1 a 44 yn Ch2; 17 o bobl ifanc yn y grŵp oedran 16+, sy'n uwch na'r 14 yn Ch1 a 16 yn Ch2, gyda chynnydd pellach i 17 yn Ch2;

- Lletyir plant a phobl ifanc o Ynys Môn mewn amrywiaeth o leoliadau gwahanol fel yr amlygwyd yn yr adroddiad yn E (i) gyda chynnydd yn nifer y plant a'r bobl ifanc sy'n cael eu lleoli gartref gyda'i rhiant/rhieni o dan Reoliad 38 tra bod asesiad rhieni yn parhau 'yn y gymuned'. Bu cynnydd yn nifer y plant a'r bobl ifanc a leolwyd mewn Unedau Preswyl tu allan i'r Sir ers y chwarter olaf oherwydd barnwyd bod eu hymddygiad yn broblemus. Lleolir nifer fawr o blant a phobl ifanc Ynys Môn gyda'u teuluoedd neu ffrindiau.
- Bu cynnydd yn nifer yr adolygiadau PDG a gynhaliwyd o fewn y cyfnod o 85.96% i 92.94%. Cynhaliwyd 84 adolygiad PDG yn Chwarter 3 ac roedd 62 o'r adolygiadau hyn yn y sir a 22 yn all sirol. **Roedd y Panel yn dymuno diolch i'r Swyddogion am eu gwaith i gynyddu'r adolygiadau PDG a gobeithiwyd y byddai cynnydd pellach yn cael ei adrodd yn Chwarter 4;**
- Gwelwyd tuedd yn nifer y plant a phobl ifanc sy'n cael eu lleoli gyda 'chyfeillion a theulu' o dan Reoliad 38. Mae'r canlyniad llawer gwell yn y tymor byr a'r tymor hir na phe baent yn cael eu lleoli gyda gofalwyr maeth neu mewn unedau preswyl a'r tu allan i'r sir. Mae 16 o bobl ifanc sy'n destun Gorchymyn Gofal yn cael eu lleoli gartref gyda'u rhiant/rhieni o dan y drefn 'Lleoli gyda Rhieni'. Fodd bynnag, mae nifer fechan wedi eu lleoli gyda'u rhiant/rhieni gan y Llys o dan Reoliad 38(6) ac felly parheir i asesu'r teulu yn y gymuned.
- Mae baich achosion y SAA yn parhau i fod yn uchel iawn. Mae cymorth ar gael, yn arbennig gydag adolygiadau PDG tu allan i'r sir. Penodwyd Swyddog Adolygu a Diogelu Annibynnol ym mis Hydref, ond gadawodd yr unigolyn i ymgymryd â swydd arall ddiwedd mis Tachwedd 2016; bydd angen hysbysebu'r swydd hon unwaith eto.
- Tynnwyd sylw at y ffaith nad oes cefnogaeth weinyddol reolaidd a chyson ar gael ac mae hyn yn golygu nad yw'r cofnodion ar gael i'r Llys nac i'r teuluoedd mewn modd amserol. Dywedodd y Cadeirydd bod y swydd gefnogaeth weinyddol wedi ei chymeradwyo erbyn hyn a bydd camau'n cael eu cymryd i benodi i'r swydd maes o law;
- Bydd materion sy'n achosi pryder a nodwyd yn y cyfarfod diwethaf, fel y nodwyd ar Dudalen 7 (ix) yr adroddiad, yn cael eu monitro'n barhaus a bydd unrhyw bryderon yn cael eu rhannu â'r rheolwr tîm. **Gofynnodd y Panel am adroddiad diweddaru yn manylu ar y meysydd fydd yn cael eu monitro fel y nodwyd ar Dudalen 7 (ix) yng nghyfarfod nesaf y Panel Rhiantu Corfforaethol.**

Adroddodd y Prif Reolwr Gweithredu Dros Dro nad yw'r adroddiad yn rhoi gwybodaeth am faint o blant sy'n destun Gorchmynion Gofal a Gorchmynion Gofal Dros Dro. Fodd bynnag, nododd fod materion Cenedlaethol yn ymwneud â'r agwedd neu'r farn sy'n bodoli mewn perthynas â 'Phlant sy'n Derbyn Gofal', sef a yw hynny'n ddefnydd priodol o lety gwirfoddol ac y dylai awdurdodau lleol ddechrau achosion Llys yn gynt i dderbyn cyfrifoldebau rhiant ar gyfer y grŵp hwnnw o bobl ifanc.

Ystyriodd y Panel yr wybodaeth a gyflwynwyd a chodwyd y materion canlynol :-

- Gofynnodd y Panel am eglurhad am nifer y plant/pobl ifanc ar y gofrestr 'mewn risg' o'i gymharu â phlant/pobl ifanc mewn gofal ac a ddylai'r wybodaeth hon fod yn rhan o gylch gorchwyl adroddiad y Swyddog Adolygu Annibynnol. Hysbyswyd y Panel mai cyfrifoldeb y Swyddog Adolygu Annibynnol a'r Panel Rhiantu Corfforaethol yw delio â phlant/pobl ifanc mewn gofal. Trafodir plant/pobl ifanc sydd ar y gofrestr 'mewn peryg' yn y Bwrdd Diogelu Gwynedd ac Ynys Môn ynghyd â'r Bwrdd Rhanbarthol. Gan fod yr awdurdod wedi cytuno i fuddsoddi adnoddau yn y Tîm Trothwy Gofal awgrymwyd fod y Panel yn derbyn gwybodaeth am waith y Tîm Trothwy Gofal wedi iddo gael ei sefydlu. Dywedodd y Prif Reolwr Gweithredu Dros Dro y byddai'n ddefnyddiol derbyn gwybodaeth yn adroddiad y Swyddog Adolygu Annibynnol mewn perthynas â manylion y plant/pobl ifanc sydd wedi gadael gofal h.y. boed hynny drwy gael eu mabwysiadu neu fynd i fyw gyda theuluoedd;
- Gofynnodd y Panel am gael ymgorffori yn adroddiad Ch4 y Swyddog Adolygu Annibynnol i gyfarfod nesaf y Panel Rhiantu Corfforaethol, fanylion y plant a'r bobl ifanc sydd angen asesu eu statws cyfreithiol a niferoedd/ystadegau am deuluoedd sydd angen cefnogaeth ddwys;
- Gofynnodd y Panel am gadarnhad bod adolygiadau PDG wedi adnabod yn gyson yr angen i ail-asesu sefyllfa'r teulu er mwyn dileu Gorchmynion Gofal. Cyflwynwyd sylwadau nad yw lleoliadau i gynnal adolygiadau PDG o'r fath ar gael bob amser. **Dylid cyflwyno gwybodaeth i'r Panel ynglŷn ag a oes angen mwy o adnoddau i alluogi gweithredu trefn fwy effeithiol ac i adnabod lleoliad mwy addas ar gyfer cynnal adolygiadau PDG yn y dyfodol.**

**CYTUNWYD i dderbyn adroddiad y SAA a'r argymhellion fel y nodwyd uchod.**

**GWEITHREDU : Y SAA i gynnwys yr argymhellion y nodwyd uchod yn adroddiad Ch4 i'r cyfarfod nesaf.**

## 6 ADRODDIADAU GWASANAETH

6.1 Cyflwynwyd, er ystyriaeth gan y Panel, adroddiad y Rheolwr Tîm Lleoli Plant.

Ystyriodd y Panel yr adroddiad a nodwyd y canlynol :-

- Nododd y Panel bod cadw gofalwyr maeth yn parhau i fod yn uchel ar agenda'r gwasanaeth maethu a bod y Swyddog Recriwtio a Marchnata yn chwarae rôl allweddol yn hynny. Gofynnwyd faint o rieni maeth a gollwyd yn ystod y flwyddyn a faint o ofalwyr maeth sydd wedi symud oddi wrth yr awdurdod lleol i'r sector preifat? Dywedodd y Rheolwr Tîm Lleoli Plant nad oedd hi'n ymwybodol bod unrhyw ofalwyr maeth wedi symud i'r sector preifat yn ystod y flwyddyn ddiwethaf; nododd y byddai'n paratoi adroddiad ar gyfer y cyfarfod nesaf mewn perthynas â nifer y rhieni maeth a gollwyd ynghyd â manylion am y gwahanol amgylchiadau pam eu bod wedi rhoi'r gorau i fod yn rhieni maeth;
- Gofynnodd y Panel am eglurhad ynglŷn ag a yw rhieni maeth yn ystyried eu bod yn derbyn cefnogaeth ddigonol gan yr awdurdod lleol. Dywedodd Cadeirydd Cymdeithas Gofalwyr Maeth Ynys Môn y gallai rhai teuluoedd gael profiad o ddelio â phlant/pobl ifanc mwy heriol ac efallai bod y teuluoedd hynny angen mwy o gefnogaeth gan yr awdurdod.
- Gofynnodd y Panel a oedd gan y Swyddog Adolygu Annibynnol rôl i fonitro pam mae teulu maethu yn rhoi'r gorau i fod yn ofalwyr maeth. **Awgrymwyd hefyd y dylai'r Panel Maethu dderbyn mwy o hyfforddiant ar sail reolaidd pan fyddant yn ystyried recriwtio rheolwyr maeth.**
- Nododd y Panel fod capasiti'r Tîm Lleoli Plant wedi bod o dan bwysau yn ystod Ch2 gan fod tri aelod o'r tîm yn absennol oherwydd salwch tymor hir. Mae'r tri Gweithiwr Cymdeithasol arall wedi bod yn rhannu llwyth gwaith yr aelodau staff sy'n absennol ac yn ymateb i atgyfeiriadau gan swyddogion dyletswydd ac argyfyngau. Erbyn diwedd chwarter 3 mae'r tri aelod staff oedd ar absenoldeb salwch tymor hir wedi dychwelyd o dan gynlluniau dychwelyd yn raddol a dychwelyd i'r gwaith.

**CYTUNWYD i dderbyn a nodi'r adroddiad.**

**GWEITHREDU : Rheolwr y Tîm Lleoli Plant i roi manylion i'r Panel Rhiantu Corfforaethol am nifer y rhieni maeth sydd wedi rhoi'r gorau i fod yn rhieni maeth fel y nodwyd uchod.**

6.2 Rhoes y Nyrs PDG adroddiad llafar i'r Panel mewn perthynas â materion iechyd a nodwyd y wybodaeth.

**DIM GWEITHREDU PELLACH YN CODI**

6.3 Cyflwynwyd adroddiad y Swyddog Addysg PDG er ystyriaeth gan y Panel.

Nododd y Panel y dylid monitro cyrhaeddiad addysgol plant sy'n derbyn gofal. Mae angen edrych ar eu cyraeddiadau amcanol mewn TGAU, Lefel Ac a'u potensial o ran ennill llefydd mewn Prifysgol neu addysg bellach, ac mae angen i adrannau'r awdurdod weithio'n agosach a'i gilydd.

**CYTUNWYD i dderbyn ac i nodi'r adroddiad.**

**DIM GWEITHREDU PELLACH YN CODI.**

6.4 Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Tîm PDG er ystyriaeth gan y Panel.

Ystyriodd y Panel yr adroddiad a nodwyd y canlynol :-

- Mae’r Tîm PDG wedi profi cyfnod o sefydlogrwydd gydag aelodau staff yn sefydlog. Mae tueddiad o hyd i ddibynnu ar Weithwyr Cymdeithasol asiantaeth, fodd bynnag mae dau aelod o staff wedi dychwelyd o gyfnod mamolaeth yn ddiweddar;
- Nodwyd cynllun y Tîm PDG ar gyfer y dyfodol, o dan rif 8 yn yr adroddiad.

**CYTUNWYD i dderbyn yr adroddiad ynghyd â’r cynllun ar gyfer y Tîm PDG fel y nodwyd uchod.**

**DIM GWEITHREDU PELLACH YN CODI**

## 7 Y FFRAMWAITH MAETHU CENEDLAETHOL : RHIANTU CORFFORAETHOL

Nodwyd y cynhelir y Gynhadledd Rhiantu Corfforaethol Genedlaethol yn Wrecsam ar 28 Mawrth 2017.

## 8 CYFARFODYDD Y PANEL AR GYFER 2017/18

Nodwyd y cynhelir cyfarfodydd nesaf y Panel fel a ganlyn :-

